

DATGANIAD I'R WASG

Dydd Iau, 5 Gorffennaf 2018

CERDDORIAETH A 'CHYFAREDD' – DATHLU CYFANSODDWRAIG ARLOESOL CYMRU

Mae Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn perfformio Nocturne, gan Morfydd Owen am y tro cyntaf yn nigwyddiad Proms y BBC yn y Royal Albert Hall

Y dyddiau hyn mae hawliau menywod ac achosion ffeministaidd ar frig y newyddion, ond ar droad yr 20^{fed} Ganrif, roedd ymgyrch debyg, arloesol ar y gweill. Yn ystod y cyfnod y Swffragetaid a'r galw am ragor o hawliau i fenywod, enillodd y gyfansoddwraig ifanc o Gymru, Morfydd Llwyn Owen, galon y byd cerddorol.

Er mwyn dathlu doniau ffigur mor bwysig yng ngerddoriaeth Cymru, bydd BBC NOW yn nodi canmlwyddiant marwolaeth Morfydd Owen ar 7 Medi 1918, yn 26 mlwydd oed, drwy berfformio ei cherddoriaeth yn y Royal Albert Hall, o dan arweiniad y Prif Arweinydd **Thomas Søndergård** ar 20 Gorffennaf fel rhan o ddigwyddiad Proms y BBC. Y darn sydd wedi'i ddewis yw **Nocturne**. Enillodd Morfydd Fedal Arian Charles Lucas yn yr Academi Gerdd Frenhinol yn 1913 am y gwaith hwn. Dyma fydd y tro cyntaf i **Nocturne** gael ei gynnwys yn rhaglen Proms y BBC.

Mae gwaith Morfydd Owen yn parhau hyd heddiw ac mae wedi mynd y tu hwnt i fwy na dim ond cerddoriaeth. Symudodd i Lundain yn 1912 i astudio cyfansoddi yn yr Academi Gerdd Frenhinol, a hynny yn ystod cyfnod lle'r oedd yn cael ei gydnabod yn eang ei bod yn anodd iawn i fenywod lwyddo, a hyd yn oed yn fwy heriol i fenyw o'r wlad fel Morfydd. Ond, llwyddodd i godi uwchlaw cyfyngiadau diwylliannol a chymdeithasol ei hoes, gan ei gwneud yn llawer haws i fenywod eraill ddilyn ei champau, gan gynnwys cyfansoddwagedd uchel eu parch o Gymru fel Grace Williams, a oedd yn aml yn enwi Owen fel ei hysbrydoliaeth.

Roedd Morfydd Owen yn dod o wlad a oedd yn falch o dathlu rôl bwysig menywod yn y diwydiannau creadigol. Dilynodd yr ysbryd Cymreig hwn hi i Lundain, lle cafodd gefnogaeth a chroeso cynnes gan y rhwydwaith o gapeli Cymraeg a chymdeithas ehangach Cymry Llundain. Cymerodd y Foneddiges Herbert Lewis a David Lloyd George hi o dan eu hadain, gan greu cyfleoedd iddi ymddangos mewn cyngherddau. Cafodd ei chomisiynu i lunio cyfansoddiadau gan Aelodau Seneddol Rhyddfrydol eraill, gan gynnwys Syr J. Herbert Lewis a Syr H. Haydn Jones.

Roedd Morfydd Owen wedi cwblhau 250 o ddarnau cyn ei marwolaeth gynamserol yn 1918. Mae ei heffaith ar gerddoriaeth yng Nghymru yn ogystal â'i dylanwad yn dal i ddod yn fwyfwy poblogaidd yng Nghymru ac yn rhyngwladol, gyda pherfformiadau dramor yn cynnwys Gŵyl Morfydd Owen yn Winnipeg yn 1999.

Meddai **Dr Rhian Davies, Cyfarwyddwr Artistig Gŵyl Gregynog**, a gwblhaodd PhD am fywyd a gwaith Morfydd Owen: "Rwy'n falch iawn fod *Nocturne* yn cynrychioli cyfansoddiadau o Gymru yn nigwyddiad

Proms y BBC eleni, a hynny gan mlynedd ers marwolaeth Morfydd Owen a 101 o flynyddoedd ers i'w gân *For Jeannie's Sake* gael ei pherfformio gan Robert Radford a Frederick Kiddle yn 1917.

Roedd Morfydd yn arloeswraig ym mhob ffordd felly mae'n briodol ac yn arbennig iawn ei bod yn cael ei chynnwys mewn tymor Proms sy'n anrhydeddu cyfansoddwragedd."

Meddai **Thomas Søndergård, arweinydd BBC NOW a BBC Proms 8**: "Rwy'n falch iawn o fod yn rhan o'r digwyddiad arbennig hwn, ac yn edrych ymlaen at berfformio un o ddarnau mwyaf nodedig a gwreiddiol Morfydd Owen. Mae *Nocturne* yn ddarn o gerddoriaeth hyderus, clyfar, hynod a llawn ysbryd. Rwy'n siŵr y bydd y Gerddorfa'n mwynhau cael y cyfle i chwarae'r darn eiconig hwn a dathlu doniau'r gerddores arbennig hon."

Bydd BBC NOW yn perfformio pum cyngerdd yn nigwyddiad **Proms y BBC** sy'n dechrau ar **20 Gorffennaf**, o dan arweiniad **Thomas Søndergård**. Bydd yn cynnwys cerddoriaeth gan Lili Boulanger a'r gyfansoddwraig o Gymru, Morfydd Owen, a fu farw yn 1918. Bydd y gerddorfa'n perfformio ochr yn ochr â phum côr ar **22 Gorffennaf** yn *Symffoni Rhif 8 'Symffoni o Fil'* gan Mahler. Hwn hefyd fydd y tro olaf i **Thomas Søndergård** berfformio fel Prif Arweinydd BBC NOW. Ar **27 Gorffennaf**, bydd **Martyn Brabbins** yn arwain cyngerdd i ddathlu canmlwyddiant Parry, ochr yn ochr â cherddoriaeth gan Vaughan Williams a Holst. Bydd cyngerdd olaf y gerddorfa yn y Royal Albert Hall am y tymor yn cynnwys cerddoriaeth gan y Fonesig Ethel Smyth, Dvořák a Richard Strauss ar **1 Awst**, o dan arweiniad **Otto Tausk**. Mae BBC NOW yn ymuno yn nathliadau anhygoel Noson Olaf y Proms ar **8 Medi** gyda **Proms yn y Parc y BBC yng Nghymru** ym **Mae Colwyn**.

-DIWEDD-

I gael rhagor o wybodaeth, lluniau a chyfweliadau, cysylltwch â:

Rebecca Ellis- Owen – Adran Gyfathrebu BBC NOW

Rebecca.ellis-owen@bbc.co.uk

| 029 20 559715 | 07899668853

Nodiadau i Olygyddion

Mae fersiwn Saesneg o'r datganiad i'r wasg hwn ar gael.

Nodiadau i Olygyddion

Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

Ers 90 mlynedd, mae BBC NOW wedi chwarae rhan ganolog yn nhirwedd ddiwylliannol Cymru, ac mae'n cyflawni rôl unigryw fel cerddorfa ddarlledu a cherddorfa symffoni genedlaethol. Mae'r gerddorfa'n perfformio amserlen brysur o gyngherddau byw ledled Cymru a'r DU, o dan arweiniad y tîm artistig, sef y Prif Arweinydd, Thomas Søndergård; y Prif Arweinydd Gwadd, Xian Zhang; yr Arweinydd Llawryfog, Tadaaki Otaka a'r Cyfansoddwr Cyswllt, Huw Watkins. Yn rhan o BBC Cymru Wales ac yn derbyn cefnogaeth hael gan Gyngor Celfyddydau Cymru, mae'r Gerddorfa'n llysgennad ar ran cerddoriaeth Cymru, ac yn hyrwyddo cyfansoddwyr a cherddorion cyfoes.

Mae perfformiadau i'w clywed yn rheolaidd ar y BBC, ar Radio 3, Radio Wales a Radio Cymru, ac mae'r gerddorfa'n perfformio bob blwyddyn yn nigwyddiad Proms y BBC a phob dwy flynedd yng nghystadleuaeth BBC Canwr y Byd Caerdydd. Gan adeiladu ar ei gwaith helaeth gydag ysgolion Anghenion Addysgol Arbennig, perfformiodd BBC NOW y Prom Hamddenol cyntaf erioed yn 2017. Enillodd y digwyddiad hwn wobwr y Digwyddiad Gorau i Deuluoedd, Fantastic for Families Awards.

Yn 2015, teithiodd y Gerddorfa i Dde America, gan ymweld â'r Ariannin, Chile ac Uruguay, yn ogystal â'r Wladfa ym Mhatagonia lle bu cerddorion yn gweithio mewn ysgolion ac yn y gymuned. Hon oedd y daith fwyaf uchelgeisiol hyd yma. Bydd BBC NOW yn mynd ar daith i Tsieina ym mis Rhagfyr 2018, gyda'r Arweinydd Gwadd, Xian Zhang.

Cartref y Gerddorfa yw Neuadd Hoddinott y BBC ym Mae Caerdydd, lle mae BBC NOW yn parhau â'i gwaith fel un o gerddorfeydd traciau sain mwyaf blaenllaw y DU. Mae wedi gweithio ar Doctor Who, War and Peace, Hollow Crown a Life Story, David Attenborough. Mae ei pherfformiadau diweddaraf ar gyfer y teledu yn cynnwys y gyfres Tunes for Tyrants ar BBC Four, a gyflwynwyd gan Suzy Klein a Rhod Gilbert's Work Experience: Classical Musician.

www.bbc.co.uk/bbcnow

Cerddorfeydd a Chorau'r BBC

Mae pob un o Gerddorfeydd a Chorau'r BBC yn chwarae rôl unigryw ym mywyd diwylliannol Prydain. Wedi eu lleoli yng Nghaerdydd, Glasgow, Llundain a Salford, mae Cerddorfa a Chorws Cenedlaethol Cymreig y BBC, Cerddorfa Symffoni BBC yr Alban, Cerddorfa Symffoni a Chorws y BBC, Cerddorfa Gyngerdd y BBC, Cantorion y BBC a Cherddorfa Ffilharmonig y BBC, yn cyrraedd cynulleidfa o filiynau gyda'u rhaglennu amrywiol ac unigryw. Gan berfformio â phrif arweinwyr ac unawdwyr y byd, mae Cerddorfeydd a Chorau'r BBC yn gwneud tua 400 o gyngherddau'r flwyddyn mewn tua 60 o leoliadau ledled y DU, ac o amgylch y byd hefyd. Mae gan gerddoriaeth gyfoes rôl ganolog ym mywyd cerddorol pob grŵp, ac mae nifer sylweddol o weithiau'n cael eu perfformio am y tro cyntaf bob tymor, a nifer ohonynt yn cael eu comisiynu gan BBC Radio 3. Mae'r Cerddorfeydd a'r Chorau'n trefnu tua 200 o brosiectau dysgu ac allgymorth ar draws y wlad, gan ddod â cherddoriaeth i ddegau ar filoedd o bobl o bob oedran ar draws y DU. Maent yn rhan hanfodol o brosiect nodedig Deg Darn y BBC, sef menter i ysbrydoli plant i fod yn greadigol gyda cherddoriaeth glasurol, sydd bellach wedi cyrraedd dros 4 miliwn o bobl ledled y DU. Cerddorfeydd a Chorau'r BBC yw asgwrn cefn Proms y BBC. Gyda'i gilydd, maent yn gyfrifol am roi bron i hanner y cyngherddau yn yr ŵyl gerddoriaeth glasurol fwyaf yn y byd.

BBC Radio 3

Mae BBC Radio 3 yn darlledu cerddoriaeth glasurol, nodedig o safon uchel a rhaglenni diwylliannol, ochr yn ochr â rhaglenni celf a syniadau rheolaidd, jazz a cherddoriaeth y byd. Mae mwy o raglenni cerddoriaeth glasurol fyw ar yr orsaf hon na'r un arall, a dyma gartref Proms y BBC. Mae'n darlledu bob Prom yn fyw a dros 600 chyngherdd llawn bob blwyddyn, yn ogystal â rhaglenni llafar dyddiol, 90 opera cyflawn, dros 25 o ddramâu wedi'u comisiynu a dros 20 o gomisiynau cerddorol newydd gan y BBC bob blwyddyn. Radio 3 yw comisiynydd pwysicaf gwaith cerddorol newydd yn y wlad, ac mae wedi ymrwymo i gefnogi talentau newydd – o gyfansoddwyr i awduron caneuon a pherfformwyr ifanc newydd – drwy gynlluniau fel New Generation Artists a New Generation Thinkers. www.bbc.co.uk/radio3

Proms y BBC: Proms y BBC yw gŵyl gerddoriaeth glasurol fwyaf y byd, ac mae'n cynnig wyth wythnos o greu cerddoriaeth o safon fyd-eang gan lu o gerddorfeydd, arweinwyr ac unawdwyr o'r DU ac ar draws y byd. Nod yr ŵyl yw cynnig haf o gerddoriaeth sy'n caniatáu ar gyfer y teithiau cerddorol mwyaf amrywiol a chyffrous, gyda 90 o gyngherddau - a nifer tebyg o ddigwyddiadau am ddim i ymestyn a chyfoethogi profiad cynulleidfa'r Proms. Fe'i sefydlwyd dros 120 o flynyddoedd yn ôl, a'r prif beth sy'n sbarduno gŵyl ar y raddfa hon yw cynnig profiadau o greu cerddoriaeth am y prisiau isaf posibl, gan barhau ag uchelgais wreiddiol Henry Wood, y sylfaenydd-gyfansoddwr, o gyflwyno'r gerddoriaeth glasurol orau i'r gynulleidfa ehangaf bosibl. Bydd pob Prom yn cael ei ddarlledu'n fyw ar BBC Radio 3, ar gael ar sawl llwyfan a sawl un yn cael ei ddangos ar y teledu. Mae Proms y BBC yn cyrraedd y tu hwnt o lawer i'r Royal Albert Hall. Bydd Proms y BBC 2018 yn cael eu cynnal o ddydd Gwener 13 Gorffennaf tan ddydd Sadwrn 8 Medi 2018.